# Adroddiad Arolygu ar

**Gartref Gofal Preswyl Tregerddan**

**Tregerddan**
**Bow Street**
**SY24 5BW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

16 Tachwedd 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Tregerddan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Diben yr arolygiad â ffocws hwn yw adolygu un Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth sydd mewn grym o ran goruchwyliaeth y darparwr.

Mae pobl yn parhau i gael gofal a chymorth wedi eu personoli sy'n diwallu eu hanghenion. Mae cynllun gan y darparwr i gwblhau'r gwaith amgylcheddol.

Mae'r darparwr wedi gwella trefniadau goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref ac yn cynnwys pobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr gofal yn ei ymweliad a'r adroddiad ansawdd gofal sydd yn ei ddilyn.

## Llesiant

Mae pobl yn cael cefnogaeth sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn oddi wrth weithwyr gofal gwybodus sydd yn deall eu hanghenion. Wrth drafod y tîm o staff, dywedodd unigolyn wrthym, *“Maent yn dda yma, yn rhagorol.”* Mae amgylchiadau personol yn cael eu hystyried ac mae gweithwyr yn cynorthwyo pobl i gynnal cysylltiad â’u hanwyliaid. Mae unigolion yn cael eu parchu a dywedwyd wrthym am bobl yn cael eu cynorthwyo i fyw mor annibynnol â phosib.

Mae pobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ac yn mynegi eu barn am y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu ymdrin â'r pryderon a godwyd ynglŷn â'r cyfyngiadau ymweld ac mae’n adolygu'r canllawiau ymweld. Ar ôl ei orffen, nod yr amgylchedd yw gwella llesiant trwy helpu pobl i ymgyfeirio wrth symud o gwmpas y cartref a manteisio i’r eithaf ar dechnoleg sydd yn cynorthwyo unigolion â heriau mewn perthynas â’u cof.

Mae pobl yn medru mynegi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth oherwydd bod yr unigolyn cyfrifol yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae'r staff yn cyfrannu gyda syniadau ac awgrymiadau i wella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol yr unigolyn cyfrifol. Dywedodd gweithiwr, *“Roedd ffocws fy sgwrs gyda [yr unigolyn cyfrifol] pan wnaeth hi ymweld ynglŷn â'r adeilad a defnyddio lliwiau a fydd yn helpu i wneud yr adeilad yn addas i bobl â dementia.”* Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro ac asesu ansawdd y gwasanaeth. Mae camau gweithredu ac amserlenni clir yn galluogi'r darparwr i wella'r gwasanaeth cyffredinol y mae'n ei gynnig i bobl.

## Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn ffocws yn yr arolygiad hwn, ond mae ein sgyrsiau gyda phobl sydd yn byw ac yn gweithio yn y cartref yn dangos eto bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion iechyd a llesiant pobl.

Mae staff yn deall anghenion unigolion ac roeddent yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gynnig i bobl. Gwelsom ryngweithiadau cyfeillgar a cynorthwyol rhwng gweithwyr gofal a phobl ar sail unigol ac mewn grwpiau.

Mae arferion hylendid da yn parhau trwy gydol y gwasanaeth. Mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Yr Amgylchedd

Nid oedd yr amgylchedd yn ffocws yn yr arolygiad hwn, ond fe’i nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf fel maes i'w wella. Mae gan y darparwr gynllun adnewyddu llawn a fydd yn gwella iechyd a llesiant unigolion.

Mae'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau cyllid i wneud y gwelliannau i'r adeilad a’r tiroedd. Mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2022 a byddwn yn profi hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella ei drefniadau ar gyfer monitro, adolygu a datblygu ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn nodi llawer o sgyrsiau gyda phobl a'u cynrychiolwyr. Mae gweithwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r cyfle i siarad â'r unigolyn cyfrifol ac yn cael sgyrsiau agored ynglŷn â gwella'r gwasanaeth. Mae cynrychiolwyr yn gadarnhaol am y ffordd maent yn cael eu cynnwys yn y gwasanaeth ond maent am weld newidiadau i'r canllawiau ymweld. Cadarnhawyd gan yr unigolyn cyfrifol fod ymweliadau yn destun asesiad risg unigol ac y gallant ddigwydd o fewn y cartref. Mae'r darparwr yn adolygu ei bolisi ymweld yn Rhagfyr 2021.

Mae'r adolygiad chwe misol o ansawdd y gofal yn fanwl ac yn cynnwys adborth oddi wrth bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gwybodaeth o archwiliadau ac arolygon mewnol yn galluogi'r unigolyn cyfrifol i fonitro'r gwasanaeth gyda chamau gweithredu clir ar sut i wella ansawdd.

Gallwn gwblhau bod y trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol wedi gwella ac yn canolbwyntio ar welliannau i'r gwasanaeth. Mae'r Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth a roddwyd yn yr arolygiad diwethaf wedi cael sylw. Disgwyliwn i’r lefel hon o oruchwyliaeth barhau a bydd hyn yn cael ei brofi mewn arolygiadau yn y dyfodol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Yr Amgylchedd | Adolygwyd |
| 6 | Llywodraethu a Goruchwyliaeth y Darparwr | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 24/01/2022'